



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'r Comisiynydd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Pwrpas

Mae'n bleser gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyflwyno ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2021-22 i'r Comisiynydd fel sy'n ofynnol dan ei Gylch Gorchwyl.

Aelodau

Steve Harford (Cadeirydd)
Claire Bevan
Phil Davy
Julia Evans
David Powell

Cylch Gorchwyl

Yn y cyfarfod ar 2 Tachwedd 2021, cytunwyd ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor, a oedd wedi cael ei ddiweddarau.

Mae hwn i'w weld ar wefan y Comisiynydd, www.olderpeoplewales.com.

Tâl

Fel rhan o'u telerau ac amodau, mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael eu talu am wyth diwrnod y flwyddyn, ar gyfradd ddyddiol o £350 a £400 i'r Cadeirydd.

Telir aelodau hefyd am y sesiynau hyfforddi maen nhw wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn.

Os bydd aelodau'r Pwyllgor yn gwneud unrhyw waith ychwanegol i'r Comisiynydd, sydd y tu hwnt i gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, byddant yn cael eu talu ar gyfradd ddyddiol y Pwyllgor.

Yn ystod 2021 i 2022, rhoddodd un aelod o'r Pwyllgor gymorth yn ystod y broses recriwtio am aelod newydd o'r Pwyllgor. Ni wnaeth aelodau eraill y Pwyllgor unrhyw waith ychwanegol.

Teithio a Chynhaliaeth

Yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd, mae Aelodau'n cael ad-daliad drwy'r gyflogres am eu costau teithio a chynhaliaeth.

Yn ystod 2021-22 cafodd cyfarfodydd y Pwyllgor eu cynnal drwy gynhadledd fideo. Felly, ni chafodd unrhyw dreuliau eu had-dalu i'r Aelodau.

Cyfnod yn y Swydd

Caiff pob aelod ei benodi am gyfnod o bedair blynedd i ddechrau gyda'r opsiwn i hystyn y cyfnod am hyd at bedair blynedd arall.

Ar ben hynny, i gydnabod y cynnydd yn lefel risg strategol y Comisiynydd oherwydd pandemig Covid-19, ac i roi sefydlogrwydd a chysondeb i'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod digynsail hwn, mae telerau swydd Steve Harford a Phil Davy wedi cael eu hystyn am flwyddyn arall, tan fis Mawrth 2022.

Recriwtio

Mae un aelod newydd o'r Pwyllgor wedi cael ei recriwtio i ddechrau yn y swydd ym mis Ebrill 2022.

Pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd

Bu i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gwrdd bob chwarter yn ystod y flwyddyn, ar y dyddiadau canlynol:

22 Ebrill 2021	pob aelod yn bresennol
22 Gorffennaf 2021	derbyniwyd ymddiheuriadau gan Steve Harford
2 Tachwedd 2021	derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Powell
27 Ionawr 2022	pob aelod yn bresennol

Roedd yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn bresennol ym mhob cyfarfod yn ystod 2021 i 2022.

Y presenoldeb cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol, sef rhwng 2020 a 2021 oedd:

28 Ebrill 2020	pob aelod yn bresennol
23 Gorffennaf 2020	pob aelod yn bresennol
22 Hydref 2020	derbyniwyd ymddiheuriadau gan Julia Evans
2 Chwefror 2021	pob aelod yn bresennol

Roedd yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn bresennol ym mhob cyfarfod yn ystod 2020 i 2021.

Adolygu pa mor effeithiol yw'r Pwyllgor

Ym misoedd Ionawr a Chwefror 2022, cynhaliodd y Cadeirydd adolygiadau blynyddol gydag aelodau eraill y Pwyllgor. Yn dilyn hyn, cynhaliodd y Comisiynydd adolygiad blynyddol gyda'r Cadeirydd. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae'r Comisiynydd a'r Cadeirydd yn gallu cadarnhau ymrwymiad yr aelodau ac yn gallu darparu sicrwydd fod y Pwyllgor yn effeithiol a bod yr aelodau yn cydweithio yn dda â'i gilydd.

Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol iawn, ac roedd aelodau'n fodlon iawn â'r papurau cynhwysfawr a ddarparwyd iddynt, yn ogystal â'r ymgysylltiad gan y Tîm Rheoli Busnes yn y cyfarfodydd.

Gan ystyried y lefelau uchel o sicrwydd yn yr adroddiadau archwilio a'r sicrwydd a roddwyd gan reolwyr, mae'r Pwyllgor wedi llwyddo i ganolbwyntio ar helpu'r Comisiynydd drwy broses gefnogi a herio. Cydnabuwyd bod y sesiynau anffurfiol a gynhaliwyd dros y ddwy flynedd diwethaf yn ddefnyddiol i'r aelodau.

Materion yn ymwneud ag archwilio

Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cwrdd yn breifat â'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn flynyddol. Eleni, roeddent wedi cwrdd ar 22 Ebrill 2021, ac o ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, roedd yn bleser gan y Pwyllgor allu darparu sicrwydd nad oes gan y timau archwilio Mewnol ac Allanol unrhyw bryderon am ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiynydd. Maent hefyd yn falch o gydweithrediad y Comisiynydd a'i staff.

Dechreuodd TIAA contract 3 blynedd, gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall, i ddarparu gwasanaethau Archwilio Mewnol i'r Comisiynydd o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Cafodd cynllun Archwilio Mewnol y Comisiynydd ar gyfer 2021 i 2022 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2021.

Adroddiadau Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/2022

Yn ystod 2021/22, cynhaliodd yr archwiliad mewnol dri adolygiad sicrwydd, a darparwyd adroddiadau cysylltiedig i'r Pwyllgor.

Llywodraethu – Rheoli Risg a Rheolaeth Strategol

Rhoddodd yr adolygiadau hyn sicrwydd i'r Pwyllgor ar Risg Strategol y Comisiynydd:

- Nid ydym yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, a safonau llywodraethu a chyfreithiol eraill

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r Sgôr Sicrwydd Sylweddol a roddwyd i'r archwiliadau hyn heb unrhyw argymhellion ar yr archwiliad Rheoli Risg ac un argymhelliad arferol ar yr archwiliad Rheolaeth Strategol.

Systemau Ariannol

Roedd yr archwiliad ar systemau ariannol yn cynnwys adolygiad o Fancio a Rheoli Arian Parod, y Gyflogres a'r Cyfriflyfr Cyffredinol. Rhoddodd yr adolygiadau hyn sicrwydd i'r Pwyllgor ar ddwy Risg Strategol y Comisiynydd:

- Risg 1 – Nid ydym yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, a safonau llywodraethu a chyfreithiol eraill
- Risg 3 – Nid ydym yn cynllunio nac yn rheoli adnoddau ariannol yn effeithiol.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r Sgôr Sicrwydd Sylweddol a roddwyd i'r Archwiliad hwn heb unrhyw argymhellion.

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2022. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod yr adroddiad yn adlewyrchu lefelau sicrwydd sylweddol yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn, sy'n dangos pa mor gadarn mae'r Comisiynydd yn llywodraethu Rheolaeth Strategol, Rheoli Risg a Systemau Ariannol.

Cyfrifon Blynyddol 2020/2021

Yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2021, bu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystyried cyfrifon 2020/2021, ac roeddent yn falch o nodi bod y cyfrifon wedi cael barn ddiamod gan yr Archwilydd Cyffredinol. Cafodd y cyfrifon eu cyflwyno i Senedd Cymru ar 23 Gorffennaf 2021.

Strategaeth Archwilio Allanol ar gyfer 2021 i 2022

Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2022, bu'r Pwyllgor yn ystyried strategaeth Archwilio Cymru yng nghyswllt archwilio cyfrifon 2021-2022.

Gwerthuso'r gwaith archwilio mewnol ac allanol

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg drafodaethau gyda'r Comisiynydd ynghylch gwaith TIAA ac Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r berthynas waith gadarnhaol, broffesiynol ac adeiladol sydd gan dîm TIAA â'r Comisiynydd a'i staff. Nododd y Pwyllgor fod ansawdd y gwasanaeth a'r adroddiadau maent yn eu darparu yn uchel iawn. Mae'r Pwyllgor yn diolch i dîm TIAA am eu gwaith.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn falch o ddiolch i dîm Archwilio Cymru am eu hagwedd ymarferol a chadarnhaol wrth gynnal eu harchwiliad interim a blynyddol. Mae'r Pwyllgor a thîm y Comisiynydd yn gweld bod y gwerth ychwanegol maent yn gallu ei roi o ran yr amgylchedd ehangach o gymorth mawr.

Rheoli Risg

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddiweddariadau rheolaidd am y prosesau sydd ar waith i reoli risg yn Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn cael ei diweddarau mewn amser real ac yn cael ei thrafod yn fisol gan y Tîm Rheoli Busnes, gyda phob risg yn cael ei thrafod a'i chymeradwyo ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. O'r herwydd, gall y Pwyllgor roi sicrwydd bod gan y Comisiynydd systemau rheoli risg cadarn ar waith fel bod modd nodi risgiau, eu monitro, a'u rheoli'n dda.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau am y cwynion, y damweiniau (gan gynnwys damweiniau fu bron â digwydd) a digwyddiadau fel dangosyddion o'r modd y mae risg yn cael ei reoli yn y sefydliad.

Datganiad Llywodraethu 2021-2022

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi adolygu Datganiad Llywodraethu arfaethedig y Swyddog Cyfrifyddu am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae'r Pwyllgor yn credu ei fod yn gyflawn a'i fod yn cyflwyno adlewyrchiad cywir o'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ac o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn.

Polisiau Allweddol

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Pwyllgor wedi rhoi sylwadau a chyngor ar y polisiau allweddol canlynol a oedd wedi cael eu diweddarau:

- Gwrth-Dwyll, Llwgwrwobrwyo a Gwrth-Wyngalchu Arian
- Codi Pryderon
- Cwynion
- Teithio a Chynhaliaeth
- Rhoddion a Lletygarwch

Agenda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor, cyflwynwyd adroddiadau chwarterol i'r aelodau ar Risg Strategol, Iechyd Gweithredol, Llywodraethu, Cyfathrebu, Cyllid a Seiberddiogelwch. Cyflwynir Cerdyn Sgorio Cytbwys hefyd i'r Aelodau, sy'n rhoi trosolwg o'r holl ddata llywodraethu allweddol.

Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu Treuliau'r Comisiynydd a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch, ac ni chodwyd dim pryderon yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal â'r adroddiadau agenda chwarterol a'r adolygiad blynyddol o bolisiau allweddol, mae'r Pwyllgor hefyd wedi asesu effeithiolrwydd Archwilio Mewnol ac Allanol, wedi cael sicrwydd gan yr archwilyr mewnol ar systemau llywodraethu allweddol y Comisiynydd, wedi adolygu Amcangyfrif y Comisiynydd, ac wedi cymeradwyo'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ac adroddiad ISA260.

Dysgu a Datblygu

Yn ystod y flwyddyn, manteisiodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar y cyfle i gael hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Seiber Gweithredol. Mynychodd dau aelod sesiynau ar-lein yn ymwneud â Chwythu'r Chwiban a ddarparwyd gan TIAA ac ynghylch Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y dyfodol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth.

Gweithgareddau eraill

Yn gyfreithiol, mae'r Comisiynydd yn gorfforaeth undyn. Barn y Pwyllgor yw y gallai absenoldeb Bwrdd Anweithredol (y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei ddethol o'i blith fel arfer) greu 'bwlch gwybodaeth' o ran yr Aelodau gan nad oes ganddynt gyfrifoldebau a throsolwg ehangach.

Yn ystod 2021-22 mae'r Comisiynydd wedi gwahodd y Pwyllgor i gyfarfod yn anffurfiol, ym mis Mehefin, mis Hydref a mis Chwefror. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn gyfle i'r Comisiynydd ddefnyddio arbenigedd amrywiol y Pwyllgor ymhellach yn ystod trafodaethau manwl ar feysydd gweithredol a strategol penodol a oedd yn cynnwys lefel uchel o risgiau anodd cael gwared arny'n nhw.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae aelodau'r Pwyllgor yn dal i gael eu diweddarau mewn amser real, drwy e-bost, am unrhyw faterion sy'n codi.

Casgliad

O ganlyniad i'w waith yn ystod y flwyddyn ac adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol, gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddarparu sicrwydd sylweddol i'r Swyddog Cyfrifyddu (y Comisiynydd) fod y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheoli risg sydd yn eu lle yn rhai priodol a'u bod wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/2022.

Diolchiadau

Hoffai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddiolch i TIAA am eu gwaith wrth ymgymryd â'r trefniadau Archwilio Mewnol ar gyfer y Comisiynydd o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar hefyd i Archwilio Cymru am eu gwaith yn archwilio'r cyfrifon blynyddol.

Ni fyddai modd i'r Pwyllgor weithredu'n effeithiol heb gymorth a chefnogaeth y Comisiynydd, sydd hefyd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddi am hyn wrth gwrs, a hoffai hefyd ddiolch i'r holl staff sydd wedi rhoi o'u hamser i ymwneud â'r Pwyllgor a chefnogi ei waith. I gloi, hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn arbennig i Elen Miles am y cymorth ysgrifenyddol amhrisiadwy a gafwyd ganddi.

Steve Harford

Cadeirydd

Ar ran y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Ebrill 2022